



DE-DDWYRAIN CYMRU

RHWYDWAITH **FASGWLAIDD**



Dyfodol Gwasanaethau Fasgwlaidd
yn Ne-ddwyrain Cymru

BETH YW GWASANAETHAU FASGWLAIDD?

Mae clefyd fasgwlaidd yn gyflwr sy'n effeithio ar rwydwaith eich pibellau gwaed. Gelwir y rhwydwaith yn eich system fasgwlaidd neu gylchredol. Prif nod gwasanaethau fasgwlaidd yw ailadeiladu, rhyddhau neu ddargyfeirio rhydweliâu i adfer llif gwaed i organau. Mae'r rhain fel arfer yn driniaethau untro, yn bennaf er mwyn lleihau'r risg o farwolaeth sydyn, atal strôc, lleihau'r risg o drychu neu wella swyddogaeth. Mae gwasanaethau fasgwlaidd hefyd yn darparu cymorth i gleifion sydd â phroblemau eraill fel clefyd yr arennau.

Gall anhwylderau fasgwlaidd leihau faint o waed sy'n cyrraedd aelodau'r corff, yr ymennydd neu organau eraill - er enghraifft, gall hyn achosi poen difrifol wrth gerdded neu strôc. Yn ogystal, gall annormaleddau fasgwlaidd beri i rywun golli gwaed yn sydyn, sy'n gallu bygwth bywyd os bydd rhydweliâu sydd wedi'u chwyddo'n annormal yn byrstio. Mae arbenigwyr fasgwlaidd hefyd yn cefnogi arbenigeddau eraill, yn cynnwys trawma mawr, cardioleg, meddygaeth diabetig, meddygaeth strôc, dialysis yr arennau a chemotherapi.

PAM YDYN NI'N SIARAD AM WASANAETHAU FASGWLAIDD?

Mae llawer o heriau sy'n wynebu'r gwasanaethau hyn, gan eu gwneud yn anodd eu cynnal ym mhob un o'r safleoedd ysbyty presennol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Angen cynyddol am y gwasanaeth
- Safonau sy'n dweud bod angen gwasanaethu poblogaeth fwy, a dyma'r achos ar hyn o bryd ar draws ein hysbytai
- Methu â chwrdd â'r holl safonau ansawdd sy'n ofynnol
- Anhawster i gael a chadw'r gweithlu sydd ei angen
- Gwasanaethau wedi'u gwasgaru'n rhy eang ar draws de-ddwyrain Cymru
- Gallai canlyniadau cleifion fod yn well

Hoffem gysylltu ein gwasanaethau mewn ffordd well. Drwy wneud hynny, byddai gennym drefniadau tebyg i'r rhai sydd eisoes ar waith yn Ne-orllewin Cymru a Gogledd Cymru.

PWY SY’N RHAN O’R RHAGLEN HON?

Mae’r cyfle ymgysylltu hwn yn cael ei arwain ar y cyd gan bob un o’r sefydliadau iechyd sy’n darparu gwasanaethau fasgwlaidd ar gyfer eu poblogaethau:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Ymhlith y poblogaethau yr effeithir arnynt mae:

- Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen
- Caerdydd a Bro Morgannwg
- Rhondda Cynon Taf a Merthyr (mae Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o rwydwaith de-orllewin Cymru)
- De Powys (rhannau eraill o Bowys a wasanaethir gan rwydweithiau’r de-orllewin/gogledd Cymru yn ogystal â rhwydweithiau yn Lloegr)

FFOCWS YR YMGYSYLLTU/YMGYNHORI HWN

Cyfluniad gwasanaethau fasgwlaidd yn ne-ddwyrain Cymru yn y dyfodol.

Yn benodol: I ddechrau trafodaeth â dinasyddion ar draws de-ddwyrain Cymru ynghylch sut y caiff gwasanaethau fasgwlaidd eu trefnu yn y dyfodol.

Mae’n anelu at rannu gwybodaeth ynghylch:

- Beth yw gwasanaethau fasgwlaidd
- Pwy allai fod angen gofal fasgwlaidd
- Sut y caiff gwasanaethau fasgwlaidd eu darparu nawr
- Yr heriau sy’n wynebu gwasanaethau fasgwlaidd ar hyn o bryd
- Yr opsiynau rydym wedi dechrau eu hystyried ynghylch sut y gallem ymateb i’r heriau hyn
- Beth allai fod manteision ac anfanteision unrhyw drawsnewidiadau yn y dyfodol

PWY SYDD ANGEN GWASANAETHAU FASGWLAIDD?

Gallai fod y canlynol yn berthnasol i gleifion sy'n derbyn gwasanaethau fasgwlaidd:

- Gallent fod wedi cael strôc neu mewn perygl o gael strociau pellach
- Rhydweliâu sydd wedi'u rhwystro yn y coesau sy'n achosi poen a allai waethygu a bygwth y goes
- Chwydd yn wal prif rydweli'r corff y mae angen ei atgyweirio er mwyn ei atal rhag rhwygo
- Rhwystrau rhydweliol na chânt eu trin neu na ellir eu trin sy'n golygu bod angen trychiad arnynt

Cynhelir oddeutu 1300 o apwyntiadau/llawdriniaethau bob blwyddyn yn ardal de-ddwyrain Cymru.

SUT Y CAIFF GWASANAETHAU EU DARPARU NAWR?

Caiff y gwasanaethau eu darparu o

- Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd
- Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant*
- Ysbyty Athrofaol y Faenor, Cwmbrân

*Ar yr adeg ysgrifennu mae trefniant dros dro brys ar waith ar gyfer preswylwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Ar hyn o bryd, mae cleifion yn cael eu gweld naill ai ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan neu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gan nad oedd modd darparu'r gwasanaeth ar ddiwedd 2020.

SUT MAE GWASANAETHAU'N PERFFORMIO?

Mae mesuriad o ba mor dda mae sefydliadau yn perfformio yn cael ei gadw a'i adrodd gan y Gofrestrfa Fasgwlaidd Genedlaethol (NVR). Maent yn adrodd yn erbyn 5 maes allweddol:

- **Ymlediad aortaidd yn yr abdomen** yw chwydd yn yr **aorta**, prif wythien y gwaed sy'n rhedeg o'r galon i lawr drwy'r frest a'r stumog.
- **Mae endarterectomi carotid** yn llawdriniaeth i ryddhau'r rhydweli garotid.
- Mae **llawdriniaeth rhydweliol ymylol** yn ailgyfeirio'r cyflenwad gwaed o amgylch rhydweli sydd wedi'i rhwystro yn un o'ch coesau.
- **Llawdriniaeth yw angioplasti** i agor pibellau gwaed sydd wedi culhau neu wedi'u rhwystro sy'n cyflenwi gwaed i'ch coesau.
- **Llawdriniaeth i drychu rhan o aelod isaf y corff neu drychu'r aelod isaf yn gyfan gwbl.**

Mae ein meddygon wedi bod yn siarad am y gwasanaethau ers peth amser...

"Rydym yn gwneud yn iawn o ran y canlyniadau, ond credwn y gallem wneud yn well drwy newid y ffordd y caiff ein gwasanaethau eu trefnu."

"Nid oes gennym y nifer iawn o bobl i'w trin er mwyn cadw'r sgiliau sydd eu hangen arnom drwy weithio ar wahân."

"Byddai datblygu trefniant ar sail rhwydwaith ar gyfer gwasanaethau fasgwlaidd yn sicrhau bod de-ddwyrain Cymru yn unol â rhannau eraill o Gymru."

"Byddai'n well pe gallem wneud yr holl lawdriniaethau mewn un lle er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r gweithlu a chadw'r lefel iawn o sgiliau."

Yn wir, mae eu trafodaethau yn mynd nôl mor bell â 2014...

Gan ystyried canllawiau cenedlaethol ac arfer gorau, gwnaethant edrych ar y ffordd orau o drefnu gwasanaethau.

Gwnaethant asesu'r holl opsiynau posibl yn erbyn y canlynol:

- Ansawdd a Diogelwch (blaenoriaeth uchaf)
- Derbynioldeb
- Addasrwydd strategol
- Cynaliadwyedd (y gallu i'r gwasanaethau fod yn addas at y diben ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol)
- Mynediad
- Cyflawniad

Daethant i gytundeb ar y cyd...

Y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau fasgwlaidd yn y dyfodol fyddai drwy fodel prif ganolfan a lloerennau.

- Byddai hyn yn golygu y caiff yr holl brif lawdriniaethau fasgwlaidd eu gwneud mewn un ysbyty
- Ni fyddai'n atal pobl rhag mynd i'w hysbytai lleol ar gyfer unrhyw waith/cyngor cyn llawdriniaeth neu ar ôl y llawdriniaeth ar gyfer prosesau adfer ac adsefydlu
- Byddai'n golygu'r defnydd gorau o sgiliau a staff
- Yn bwysicaf, byddai'n golygu gwell canlyniadau i gleifion

A YDYM WEDI YSTYRIED BLE Y GALLAI'R BRIF GANOLFAN GAEL EI LLEOLI?

Ydym - mae llawer o bethau i'w hystyried sy'n cynnwys yr angen i ystod o wasanaethau eraill fod ar yr un safle (er enghraifft, gwasanaethau trawma mawr).

Ar ôl ystyried ac adolygu lleoliad y gwasanaethau eraill hynny, y lle gorau i'r brif ganolfan fyddai Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd.



BETH AM Y LLOERENNAU?

Caiff ysbytai lloeren eu cynnal yn:

- Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Athrofaol y Faenor
- Ysbyty Brenhinol Morgannwg
- Ysbyty Athrofaol Llandochau ac Ysbyty Athrofaol Cymru

Parheir i gynnal gwasanaethau adsefydlu yn yr holl gymunedau ac mewn ysbytai lleol ar draws y rhanbarth.

HOFFEM GLYWED EICH BARN CHI AM Y NEWIDIADAU ARFAETHEDIG...

Mae'r ddogfen rydych newydd ei darllen yn grynodedb o ddarn o waith llawer mwy. Os hoffech gael rhagor o fanylion gallwch gael gafael ar y gwaith yn ein 'Dogfen Graidd' drwy'r dudalen we benodedig neu drwy gysylltu â ni.

Bydd y cyfle hwn i ymgysylltu â'r cyhoedd yn para 8 wythnos o ddydd Gwener 19 Chwefror i ddydd Gwener 16 Ebrill 2021.

Rhowch adborth i ni drwy gwblhau'r arolwg ar-lein drwy'r tudalennau gwe isod:

www.bipab.gig.cymru/FasgwlaiddDDdCymru
www.bipcaf.gig.cymru/FasgwlaiddDDdCymru
cwmtafmorgannwg.wales/FasgwlaiddDDdCymru
www.biap.gig.cymru/yma/FasgwlaiddDDdCymru

Fel arall, gallwch lenwi'r ffurflen isod a'i hanfon atom mewn dwy ffordd:
Drwy ei sganio, neu dynnu llun o ansawdd da a'i anfon atom dros e-bost at sewales.vascular@wales.nhs.uk

Ei hanfon drwy'r post i'r cyfeiriad isod:

ENGAGE WITH US
Woodland House
Maes-y-coed Road
Cardiff
CF14 4HH

CWESTIYNAU

1. **O ddarllen y ddogfen drafodaeth, a oes gennych chi ddealltwriaeth dda o beth yw gwasanaethau fasgwlaidd?**

Oes Nac oes Ddim yn siŵr

Sylwadau pellach:

2. **O ddarllen y ddogfen hon, ydych chi'n deall sut y caiff y gwasanaethau eu trefnu ar hyn o bryd?**

Ydw Nac ydw Ddim yn siŵr

Sylwadau pellach:

3. **O ddarllen y ddogfen hon, a oes gennych chi ddealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaethau fasgwlaidd ar hyn o bryd?**

Oes Nac oes Ddim yn siŵr

Sylwadau pellach:

- 4. A oes unrhyw wybodaeth arall rydych chi'n credu y dylem ei hystyried er mwyn penderfynu p'un a ddylem ni symud tuag at drefniant ar sail rhwydwaith ar gyfer gwasanaethau Fasgwlaidd yn Ne-ddwyrain Cymru?**

Oes Nac oes Ddim yn siŵr

Pa wybodaeth arall a fyddai'n ddefnyddiol i chi?

- 5. Do you agree/disagree with the national evidence and recommendation from the clinical option appraisal that a hub and spoke model would improve vascular services and patient outcomes in South East Wales?**

Cytuno Anghytuno Ddim yn siŵr

Pa wybodaeth arall a fyddai'n ddefnyddiol i chi yma?

- 6. Beth yw eich barn am ystyried y ganolfan yn rhan o Ysbyty Athrofaol Cymru Caerdydd, o gofio am y dibyniaethau ar wasanaethau eraill sydd wedi'u lleoli yno?**

Rhannwch eich barn os gwelwch yn dda:

7. A fydddech chi'n cytuno/anghytuno fod yn rhaid i drefniadau lloeren gael adran achosion brys dan arweiniad meddygon ymgynghorol ac ymateb llawdriniaeth frys ar y safle?

Cytuno Anghytuno Ddim yn siŵr

Rhowch eich sylwadau neu rhowch wybod i ni pa wybodaeth ychwanegol a fyddai'n ddefnyddiol yma:

8. Yn amodol ar eich barn uchod, a fydddech chi'n cytuno/anghytuno â'r trefniadau lloeren a argymhellir?

Cytuno Anghytuno Ddim yn siŵr

Rhowch eich sylwadau neu rhowch wybod i ni pa wybodaeth ychwanegol a fyddai'n ddefnyddiol yma:

9. A oes gennych chi unrhyw sylwadau am y broses sydd wedi'i dilyn hyd yma i ystyried cyfluniad gwasanaethau fasgwlaidd yn Ne-ddwyrain Cymru yn y dyfodol?

Rhannwch eich barn os gwelwch yn dda:

10. A oes unrhyw wybodaeth arall rydych chi'n credu y dylem ei hystyried er mwyn penderfynu p'un a ddylem ni symud tuag at drefniant ar sail rhwydwaith yn Ne-ddwyrain Cymru?

Cytuno Anghytuno Ddim yn siŵr

A oes unrhyw wybodaeth arall y gallwn ni ei rhoi a fyddai'n helpu yma? Rhowch sylwadau:

11. A oes gennych chi farn am yr opsiynau sydd wedi'u hystyried yn rhan o hyn, ac a oes rhai eraill y dylem ni eu hystyried?

Oes Nac oes Ddim yn siŵr

Sylwadau pellach:

12. A oes gennych chi unrhyw sylwadau am y broses sydd ar y gweill i ystyried y dull gorau o gyflunio gwasanaethau fasgwlaidd yn Ne-ddwyrain Cymru?

Rhowch sylwadau:

13. A oes gennych chi farn amgen am y cynigion a gyflwynwyd yn y ddogfen hon ar gyfer cyfluniad gwasanaethau?

Oes Nac oes Ddim yn siŵr

Sylwadau pellach:

CWESTIYNAU MONITRO

Oedran: 18-24 25-34 35-44 45-54 55-64 65 oed ac yn hŷn

Rhywedd: Gwryw Benyw Gwell gen i ddisgrifio fy hun fel:

Gwell gen i beidio â dweud:

Cod post:

Pa un o'r rhain sy'n disgrifio eich grŵp ethnig orau?

Gwyn
Grwpiau cymysg/aml-ethnig
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig
Du/Du Prydeinig
Arabaid
Gwell gen i beidio â dweud
Arall

Ticiwch yr opsiwn sy'n eich categoreiddio chi orau fel ymatebydd:

Claf presennol/blaenorol
Y cyhoedd
Staff
Rhanddeiliad
Gofalwr claf presennol/blaenorol

Ydych chi wedi bod, neu'n bwriadu mynd i un o'r digwyddiadau ymgysylltu?

Ydw Nac ydw Efallai

Ydych chi'n ystyried eich hun yn siaradwr Cymraeg rhugl?

Ydw Nac ydw Efallai

